



## Rheolwr Gwylfa Ymgeiswyr Allanol a Mewnol

Gwahoddir ceisiadau gan y grwpiau canlynol o weithwyr:

- **Rheolwyr Gwylfa Amser Cyflawn Parhaol (A) sy'n ceisio dyrchafiad i Reolwr Gwylfa (B)**
- **Rheolwyr Criw Amser Cyflawn Parhaol**
- **Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn sydd wedi cymhwyso fel Rheolwr Criw ac sy'n cymryd rhan yn y broses ADC ar ôl llwyddo yn y prawf technegol goruchwyliol (neu brawf allanol cyfatebol)**

Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais llawn ar ôl darllen y canllawiau ymgeisio yn ofalus o ran darparu tystiolaeth ar gyfer holl feini prawf hanfodol y swydd. Dim ond y rhai sy'n ateb yr holl feini prawf hanfodol fydd yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Cymraeg lefel 2 yw'r gofyniad iaith Gymraeg ar gyfer y swydd hon; bydd ymgeiswyr sy'n methu dangos y gallu hwn ar adeg gwneud cais yn cael cymorth a hyfforddiant llawn i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl eu penodi os byddant yn llwyddiannus.

Bydd y broses yn cynnwys cyfweliad gyda phanel dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân, lle bydd raid i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad yn para 15 munud i'r panel (mae manylion pwnc y cyflwyniad ar gael yn yn nodiadau cyfarwyddyd).

Bydd asesiad Rheoli Digwyddiadau (efelychiadol) yn cael ei gynnal ar gyfer ymgeiswyr sy'n methu dangos tystiolaeth foddhaol o sicrwydd gweithredol neu asesiad ffurfiol yn y 12 mis diwethaf.

Ni fydd y rhai sy'n llwyddiannus ac sy'n cael eu penodi'n barhaol i swydd fel Rheolwr Gwylfa yn gymwys i gyflwyno cais am drosglwyddiad ar lefel Rheolwr Gwylfa hyd nes byddant wedi cwblhau o leiaf 18 mis yn y swydd. Bydd diffoddwyr tân sydd â phas ADC cyfredol, sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer ac yn cael cyfweliad ond nad ydynt yn cael eu penodi i swydd Rheolwr Gwylfa, yn cael eu hystyried fel mater o drefn ar gyfer pob swydd wag Rheolwr Criw sy'n codi wedyn.

Gofynnir i ymgeiswyr gadarnhau yn y cyfweliad os oes unrhyw swyddi/leoliadau na fyddent yn eu derbyn pe cynigid nhw.

### Dyddiadau Allweddol

Dyddiad cau : Hanner dydd **13eg Medi 2019** (ni ystyrir ceisiadau hwyr)

Asesiadau Rheoli Digwyddiadau (pan fyddant yn berthnasol): Wythnos yn cychwyn **16eg Medi**

Cyfweliadau: **23ain – 25ain Medi 2019**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd hon, cysylltwch â'r Uwch Reolwr Gweithrediadau Stuart Millington ar 01745 535 250. Dylid dychwelyd ffurflenni cais, ar ôl eu cwblhau, at y Dirprwy Reolwr Adnoddau Dynol Rachel Corner trwy e-bost yn unig: [Rachel.Corner@gwastan-gogcymru.org.uk](mailto:Rachel.Corner@gwastan-gogcymru.org.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn ymateb iddynt fel ei gilydd ac yn ateb yn yr iaith o'ch dewis yn ddi-oed.

